# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Mercher, 9 Ebrill 2025 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Ellie Chard, Karen Edwards, James Elson, Chris Evans, Justine Evans, Jon Harland, Huw Hilditch-Roberts, Alan James (Is-Gadeirydd), Julie Matthews, Terry Mendies, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Cheryl Williams, Elfed Williams a/ac Mark Young (Cadeirydd)

Aelod lleol – Y Cynghorydd Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cynghorydd Cyfreithiol (RJ), Prif Swyddog Cynllunio (PG), Rheolwr Datblygu (PM), Rheolwr Cynllunio Mwynau a Gwastraff (HP), Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu (MP) Gweinyddwr y Pwyllgor (RhTJ) a Gweinyddwr y Pwyllgor: Zoom Host (NH)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Delyth Jones, Andrea Tomlin a Raj Metri.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Mynegodd y Cynghorydd Alan James gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 5 ar y rhaglen, gan mai ef oedd yr aelod arweiniol dros y gwasanaeth a gyflwynodd y cais.

## 3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda'r Cadeirydd cyn dechrau'r cyfarfod.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2025. ***PENDERFYNWYD*:**

*Derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2025 fel cofnod cywir o'r trafodion.*

Ar y pwynt hwn, caniataodd y Cadeirydd i eitem 6 ar y rhaglen gael ei thrafod cyn eitem 5 y rhaglen gan fod yr aelod lleol a oedd am fynychu yn cael problemau technegol wrth ymuno â'r cyfarfod Zoom.

**5 RHIF Y CAIS: 21/2021/1194 CHWAREL BURLEY HILL, ERYRYS**

Cyflwynwyd cais adran 73 i barhau i ddatblygu yn Chwarel Burley Hill heb gydymffurfio â’r cyfyngiadau amser a orfodwyd gan amodau 1, 26 a 30 o Atodlen 14, Deddf yr Amgylchedd 1995 Adolygu amodau (cyf 21/2002/0009), ac i ddiwygio’r cyfyngiadau amser i alluogi parhad yr echdyniad am gyfnod o 15 mlynedd o ddyddiad penderfyniad y cais.

Gan fod swyddogion wedi diwygio eu hargymhelliad i un o ohirio, gwahoddodd y Cadeirydd swyddogion i egluro eu hargymhelliad gohirio cyn caniatáu unrhyw drafodaeth ar y cais. Dywedodd swyddogion fod yr adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd wedi'u bwndelu bythefnos cyn y cyfarfod. Oherwydd hyn, roedd gwybodaeth hwyr yn aml yn cael ei chyflwyno i swyddogion ar ôl ei chyhoeddi. Roedd llawer iawn o wybodaeth wedi’i rhoi’n hwyr cyn y cyfarfod; teimlai’r swyddogion, oherwydd faint o wybodaeth, fod angen amser ychwanegol arnynt i dreulio’r wybodaeth ac ymateb yn briodol i’r pwyntiau a godwyd; byddai hyn yn caniatáu i’r pwyllgor gael yr holl wybodaeth berthnasol cyn penderfynu ar y cais mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Cynnig** Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry y dylid gohirio'r cais er mwyn caniatáu i'r pwyllgor gael yr holl fanylion ynghylch y cais. Eiliodd y Cynghorydd Alan James y cynnig.

**Pleidlais –**
O blaid – 16
Yn erbyn – 1
Ymatal – 0

***PENDERFYNWYD:*** y dylid GOHIRIO’R cais yn unol ag argymhellion y Swyddog.

**6 RHIF Y CAIS: 16/2024/1194 MAES PARCIO MOEL FAMAU**

Cyflwynwyd cais i godi canolfan ymwelwyr newydd gyda chyfleusterau gwybodaeth a thoiledau, lle i geidwaid a gwaith cysylltiedig ym Maes Parcio Moel Famau, Llanferres, Yr Wyddgrug.

**Siaradwr Cyhoeddus –**

David Shiel (O blaid) - diolchodd y siaradwr cyhoeddus i'r Cadeirydd am y cyfle i roi rhywfaint o gefndir ynghylch pam y cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor.

Mae'r siaradwr cyhoeddus wedi bod yn rhan o reolaeth Moel Famau ers blynyddoedd lawer. Dros y 10 mlynedd diwethaf, bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o 200,000 i 300,000, sy'n dod â heriau gyda sbwriel, da byw a pharcio. Roedd y cynnydd yn y niferoedd hefyd drwy gydol y flwyddyn, tra yn flaenorol, roedd y cynnydd yn tueddu i fod yn yr haf.

Dywedodd y siaradwr cyhoeddus eu bod wedi gweithio'n agos gyda'r aelod lleol, y Cynghorydd Williams, i geisio mynd i'r afael â'r heriau, ac mae wedi bod yn gefnogaeth wych. Fodd bynnag, roedd angen presenoldeb yn yr ardal i fynd i'r afael â'r heriau. Ar hyn o bryd roedd cwt bugail yn cael ei ddefnyddio yn yr ardal, a gellid mynd i'r afael â'r heriau'n gyflym tra roeddent yn bresennol; fodd bynnag, roedd cyfyngiadau ar y cwt bugail. Rhaid ei dynnu i fyny ac i lawr o Loggerheads bob dydd a dim ond mewn tywydd ffafriol y gellid ei ddefnyddio.

Oherwydd cyfyngiadau'r cyfleuster, ni ellid gweithredu i fyny yno ar bob adeg ofynnol, felly byddai'r cyfleuster arfaethedig hwn yn ein galluogi i fod yno'n amlach ac yn barhaol. Byddai'r datblygiad hefyd yn caniatáu i'r Gwasanaeth Cefn Gwlad hysbysebu gweddill Sir Ddinbych, gan obeithio cynyddu nifer yr ymwelwyr yn yr ardal gyfagos.

**Trafodaeth Gyffredinol -**

Diolchodd y Cynghorydd Huw Williams (aelod lleol) i'r Cadeirydd am ganiatáu iddo siarad â'r Pwyllgor. Roedd y Cynghorydd Williams eisiau diolch i dîm AHNE am ei gynnwys drwy gydol y broses ynghylch y cais; cododd faterion gyda llawer o bobl yn galw'r cynnig yn gaffi; roedd y cais i ddatblygu canolbwynt ym Moel Famau. Y pryderon oedd gan y Cynghorydd Williams ar y safle oedd y potensial o gynnydd mewn sbwriel gan fod y sefyllfa biniau ym Moel Famau eisoes yn wael, ac roedd pryderon traffig, yn enwedig y rhai sy'n dilyn y llwybr o Dafarn y Gelyn; yn olaf, codwyd gorfodaeth o ran cŵn yn yr ardal ac a ellid edrych ar hyn ymhellach yn unol â Deddf Tiroedd Comin 2006 a oedd yn anelu at amddiffyn tir comin gan gynnwys hawliau pori.

Ymatebodd swyddogion fod y mater gwastraff yn ymwneud â'r cais wedi'i gynnwys yn amod 8 y cais. Fe wnaethant sicrhau'r Pwyllgor mai dim ond rhan fach o'r adeilad oedd yr ardal sy'n gweini diodydd a chacennau ac y byddai'n ddefnydd ategol yn unig. Hefyd, hysbysodd y swyddogion y Cynghorydd Williams y byddai ei bryderon ynghylch y ffordd yn cael eu hystyried, a byddai gorfodaeth yn cael ei ddefnyddio pan fo angen.

Dadleuodd y Cynghorydd Merfyn Parry yr angen am strwythur parhaol ym Moel Famau, gan ei fod yn credu nad oedd angen cael un ar y safle. Roedd argyfwng hinsawdd, ac roedd y Cyngor yn anelu at fod yn garbon niwtral erbyn 2030; ni ychwanegwyd unrhyw werth gan y cais.

Cynnig - Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry wrthod y cais, gan nad oedd yn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru na’r CDLl, ac nad oedd yn cwrdd â pholisi cynllunio PSE 14. Ni chafodd y cynnig ei eilio.

Teimlai'r aelodau, pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu, y byddai cynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i'r ardal, a fyddai'n anochel yn cynyddu'r problemau sbwriel a oedd yn bodoli eisoes yn yr ardal; ailadroddodd y swyddogion fod y pryderon ynghylch gwastraff wedi'u cynnwys o fewn amodau arfaethedig y cais. Fodd bynnag, teimlai rhai aelodau y byddai potensial cynnydd mewn twristiaeth i'r ardal yn fendith, yn enwedig gan fod y cais ar gyfer canolfan i wneud ymwelwyr yn ymwybodol o'r ardal gyfagos a gobeithio cynyddu nifer y bobl sy'n dod i'r trefi/pentrefi lleol.

Mynegwyd pryderon ynghylch y cais. Byddai'r adeilad yn strwythur parhaol, ac roedd pryderon y byddai'n difetha’r dirwedd pe na bai'r safle’n parhau’n hyfyw.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Gareth Sandilands y dylid cymerdadwy’r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Terry Mendies.

Awgrymodd y Cynghorydd Merfyn Parry gynnwys amodau pellach ar y cynnig i'w ganiatáu; y rhain oedd cymeradwyo arwynebedd llawr yr adeilad, creu cynllun rheoli ar gyfer y ganolfan cyn y datblygiad, ac os byddai'r adeilad byth yn dod yn ddiangen, byddai'n cael ei ddymchwel a dychwelyd y tir i'w gyflwr blaenorol. Roedd yr aelodau a oedd yn cynnig y cais yn fodlon ar yr amodau ychwanegol.

Cwestiynodd yr aelodau ddiffyg achos busnes yn y cais; eglurodd y swyddogion fod y caffi yn ddefnydd ategol; prif ddefnydd a phwrpas y cais fyddai canolfan ymwelwyr/canolbwynt.

Ymatebodd swyddogion i bryderon i ddweud y gellid mynd i'r afael â materion fel rheoli'r defnydd o arwynebedd llawr (cyfyngu ar yr ardal a ddefnyddir ar gyfer lluniaeth), dadgomisiynu'r adeilad o bosibl os bydd yn peidio â chael ei ddefnyddio a chymeradwyo cynllun rheoli ar gyfer y safle trwy amodau ychwanegol. Cytunodd yr aelodau y dylid diwygio'r cynnig a wnaed ac a eiliwyd i gynnwys yr amodau ychwanegol hyn.

**Pleidlais –**
O blaid – 13
Yn erbyn – 3
Ymatal – 0

***PENDERFYNWYD***: *CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar dri amod ychwanegol (rheoli arwynebedd llawr, cymeradwyo cynllun rheoli a dadgomisiynu'r adeilad ar ôl rhoi'r gorau i'w ddefnyddio).*

Daeth y cyfarfod i ben am 10:35am